

Mynd yr ail filltir

Ymddiriedaeth / dewrder / goddefgarwch

Cenhades yn Tsieina oedd Gladys Aylward. Un diwrnod cafodd ei galw i lys y pennaeth, neu'r Mandarin, yn Yangcheng, sef rhanbarth o Tsieina. Dowch i ni ei holi i weld beth ddigwyddodd.

Gladys, sut oeddech chi'n teimlo pan gawsoch chi alwad i fynd i weld y Mandarin?

Wel, y cwestiwn cyntaf ddaeth i'm meddwl oedd, 'Beth ydw i wedi wneud?' Fy ngwaith i oedd cadw llety i bobl yr ardal. Bob cyfle roeddwn i'n ei gael mi fyddwn i'n sôn am Iesu Grist. Roeddwn i'n meddwl mai dyna'r rheswm i mi gael fy ngalw i'w weld. Ond, beth bynnag, mi roeddwn i wedi dychryn cryn dipyn.

Wel, deudwch wrtha ni, beth yn union ddigwyddodd?

Mi wnes i foesyngrymu o'i flaen. Yna fe ddywedodd wrtha i bod mamau Yangcheng yn lapio traed eu plant efo cadachau er mwyn eu cadw'n fach ac yn ddestlus. "Mae'n rhaid i hyn stopio," meddai, "ac mi rydw i eisiau i chi fynd o amgylch y pentrefi i ddweud wrth y mamau. Chewch chi ddim llawer o arian ond mi gewch ful bychan a gwarchodwyr i fynd efo chi." Y fi? Pam fi? Meddylwch am fynd i fyny i'r mynyddoedd. Meddylwch amdanaf i, y ferch oedd wedi bod yn forwyn fach yn Llundain, yn dod yn Arolygwr Traed yn Yangcheng!

Sut hwyl gawsoch chi?

Gwaith anodd iawn oedd dringo'r mynyddoedd a'r gelltydd serth. Ond, a dweud y gwir, mi roeddwn i wrth fy modd! Roeddwn i'n cael sôn am Iesu Grist wrth bawb roeddwn i'n taro arnyn nhw ar y ffordd.

Mi gawsoch chi'ch galw'r eildro i weld y Mandarin?

Do. Mi roedd yna derfysg yn un o garchardai'r ardal.

Ond pam oedd y Mandarin eich angen chi o bawb?

Wel, yr hyn ddywedodd o wrtha i oedd, "Mae gennych chi Dduw sydd yn eich gwarchod. Dyna rydych chi'n ddweud wrtha ni. Felly, fe gewch chi fynd i mewn at y carcharorion ac fe fydd eich Duw yn sicr o ofalu amdanoch!

Gladys Aylward: 1904-1970

Aethoch chi i mewn?

Roedd y carcharorion fel anifeiliaid gwyllt. Roedden nhw mewn cewyll fel anifeiliaid yn y sŵ. Roedden nhw'n ymladd. Roedd un ohonyn nhw yn rhedeg yn wyllt â chyllell anferth yn ei law. Mi ges i nerth o rywle. "Rhowch y gyllell yna i mi y munud yma," meddwn wrtho. Ac yn wir i chi, dyma'r dyn yn stopio yn y fan a'r lle a rhoi'r gyllell yn fy llaw. A'r munud hwnnw, dyma bob un ohonyn nhw'n stopio a'r lle yn mynd yn ddistaw bach. Mi ddechreuais i siarad efo nhw. Roedden nhw yn cael eu trin yn union fel anifeiliaid rheibus. Yr unig beth roedden nhw'n ei wneud drwy'r dydd a'r nos oedd eistedd, pob un yn ei gawell ei hun. Mi es i'n syth i weld llywodraethwr y carchar ac fe ddywedais i wrtho fod yn rhaid iddo wneud newidiadau mawr yn y carchar.

Wnaeth o wrando arnoch chi?

Do, fe ges i gefnogaeth y Mandarin. Fe ges i fynd i weithio i'r carchar. Bob pwnn byddai'r carcharorion yn cael gwneud pethau roedden nhw â diddordeb ynddyn nhw. Byddai rhai ohonyn nhw'n cael cyfle i nyddu, eraill yn malu grawn. Mi ddois i â chwningod i'r carchar. Byddai rhai o'r carcharorion yn eu bwydo a gofalu amdany'n nhw. Yn wir, ymhen dim roedd yna gannoedd o gwningod yn y carchar, bron iawn mwy nag oedd yno o garcharorion! A chofiwch, roeddwn i'n cael cyfle i ddweud hanesion am Iesu Grist wrthyn nhw hefyd!



"Cariwch feichiau eich gilydd..."

Galatiaid 6:2



O Dduw,
mi ydw i'n cael digon o bob dim.
Helpa fi i weld anghenion pobl eraill
ond yn fwy na dim helpa fi
i wneud rhywbeth bach i'w helpu.
Paid â gadael i mi eu hanwybyddu.
Helpa fi i wneud am fy mod i eisiau,
nid am fod rhaid i mi.
Amen.



Beth ydi ystyr "mynd yr ail filltir"?